# Y LLINYN ARIAN

**Cylchgrawn Capel Salem,Caernarfon RHAGFYR 2021**

## GWASANAETHAU'R NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD

19/12

**10:00 Drama Nadolig yr Ysgol Sul**

**(tu allan o flaen cyntedd y capel)**

**5:30 MYFYRDOD ADFENT AR ZOOM**

**9:30 Bore Nadolig**

**Gwasanaeth yn y Capel a dros zoom**

**Os bydd Sion Corn wedi bod, dowch ag anrheg i ddangos**

**26/12 Gwyl Sant Steffan**


**10:00 Gwasanaeth ar Zoom**

**10:00 PARCH J.RONALD WILLIAMS**

**2/1/2022**


**Gwasanaeth yn y capel a dros zoom**

**10:00 PARCH J RONALD WILLIAMS**



**Rhown foliant o'r mwyaf i Dduw y Goruchaf am roi'i Fab anwylaf yn blentyn i Fair.**

### Gair gan y Gweinidog



Gyda dyfodiad tymor yr Adfent, un o weithgareddau cyntaf nifer o eglwysi a chapeli yw chwilio am y dorch adfent . Ddwy flynnedd yn ôl cawsom rodd o dorch newydd i Salem. Llynnedd, wedi chwilio'n fanwl methwyd a dod o hyd i'r dorch . Daethpwyd i'r casgliad mae'r lladrad neu'r clirio ar ôl y lladrad oedd yn gyfrifol fod y dorch ar goll. Eleni, cyn prynu torch newydd penderfynnwyd chwilio unwaith eto - rhag ofn!

Pan ddaeth Sul cynta'r adfent, doedd dim son amdani ac felly defnyddiwyd yr hen dorch oedd yno. Bore Llun, ar ôl ail Sul yr Adfent es i'r festri i chwilio am gardiau Nadolig, ac wrth chwilio wnewch chi ddim coelio be welais yn ymyl addurniadau Dolig y capel. Ie – y dorch newydd! Dechreuais feddwl "Pam fy mod wedi ffeindio'r dorch y bore hwnnw a chymaint ohonom wedi chwilo amdani ers wythnosau ond wedi methu ?.



Mae'r ateb yn syml ; Doedd pob un fu'n chwilio heb fod digon gofalus! Ond y gwir reswm yw i'r dorch ddod i'r golwg wedi i nifer o focsys addurniadau'r Dolig gael eu symud er mwyn addurno'r capel.

Yr enwau roddir ar ganwyllau'r Adfent yw: 1. Gobaith neu Cannwyll y Proffwydi -oherwydd rhagfynegwyd dyfodiad Iesu gan y Proffwydi. 2.Cariad neu Cannwyll Bethlehem - oherwydd yng nghafn yr anifeiliaid gwelwn Duwdod yn dod yn gnawd .3. Llawenydd neu gannwyll y Bugeiliaid achos hwy gyhoeddodd y neges o lawenydd mawr i'r holl fyd a 4.Heddwch neu Cannwyll yr Angylion achos eu can oedd mynegi Tangefedd i'r holl fyd.

Gobeithiwn y Nadolig hwn y gellir symud y rhwystrau sy'n gyfrifol am guddio'r baban a anwyd yn nyddiau'r brenin Herod, oherwydd ym Methlehem daeth baban bach yn Geidwad byd.

**O deued pob Cristion i Fethlehem yr awron i weled mor dirion yw'n Duw**

## HUNODD.

**Bu farw Mrs Ann Owen, 35 Y Glyn** ar 17 Hydref Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol yng Nghrematoriwm, Bangor ar 2ail o Dachwedd. Talwyd teyrnged ar ran y teulu yn y gwasanaeth gan Michelle ei hwyres. Cyfeiriodd at ei Nain fel dynes garedig,iach a fit erioed, calon fawr ac yn berson cryf tan y diwedd. Ni fyddai ganddi air cas byth i ddweud am neb . Roedd yn fam dda , nain a hen nain fantasig, chwaer wych ac yn ffrind annwyl. Cydymdeimlwn yn ddwys efo Mrs Rita Davies ei chwaer a holl aelodau'r teulu .

Bu farw **Mr Alan Vaughan Evans, Tan y Coed, Sgwar Uxbridge**, ar 20ed Dachwedd. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghrematoriwm, Bangor ar 9ed Rhagfyr, 2021. Fe'i magwyd yng Nghaernarfon ond treuliodd ei fywyd yng nghylch Lerpwl a Wigan nes dod nol i Gaernarfon i ofalu am ei fam; Mrs Dilys Evans, Ymaelododd Mrs Evans yn Salem pan gaewyd capel Engedi .Bu farw ym mis Awst 2012 ac yn Nhachwedd y flwyddyn honno ymaelodd Alan yn Salem. Aelwyd groesawgar oedd Tan y Coed ac 'roedd sgyrsiau a thrafodaethau Alan bob amser yn ddifyr a llesol. .Cydymdeimlwn a'i ferch Carys a'i phriod Neil, a'u plant Josie a Alfie a holl aelodau'r teulu.

Bu farw **Mrs Rebecca Jones, 4 Ffordd Marchlyn**, Caernarfon ar 27ain Tachwedd . Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol tu allan i'w chartref ac yna ym mynwent, Llanbeblig. Roedd gwreiddiau Mrs Jones yn Neiniolen,. Daeth hi a'i phriod Ifor yn aelodau yn Salem yn 1986. Bu farw ei phriod yn 1997. Roedd y ddau'n bobol annwyl a dymunol a'u haelwyd yn groesawgar a chynnes . Cydymdeimlwn â Margaret ei merch a'i phriod Brian Oshaugnhessey a'u plant a'u teuluoedd .

Bore Llun, 29 Tachwedd bu farw **Mr Ian Vaughan Jones. 14 Stryd Marcws .**Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Salem, bore Llun, 13 Rhagfyr gan ddilyn ar lan y bedd ym Mynwent, Carmel. Saer coed oedd Ian ac yn weithiwr cyflym a chaled . Mae llawer mewn dyled iddo am lu o gymwynasau . Medrwn ninnau yn Salem fod yn un ohonynt; yn festri Salem mae olion o'i waith . Cydymdeimlwn â Menna a'u plant, Sara, Arwel a Iwan a'u teuluoedd .

## COLLI PERTHNASAU

Meddyliwn am Mrs Vera Jones, yn colli ei chwaer eyng nghyfraith ac eraill sydd wedi colli pethnasau agos neu ffrindiau yn ystod y misoedd diwethaf . Boed i deuluoedd galar brofi o addewid ein Harglwydd o'i dangnefedd .



## YN YR YSBYTY/CYFNOD YN YR YSBYTY

Meddyliwn am rai o'n haelodau sydd wedi cael cyfnod mewn ysbyty : Mr Dilwyn Hughes, Mrs Vera Jones, Mrs Sheila Jones, Mr Arthur Wilding, a Mr Ronald Williams , Llys yr Eifl fu yn yr ysbyty yn ddiweddar . Danfonwn ein cyfarchion iddynt .
Yr un yw ein cyfarchion i'r rhai sydd yn derbyn triniaeth sef Mr Rhys Prytherch.
Cyflwynwn ein cofion hefyd i Mrs Menai Davies , Eira a Angharad a'u teuluoedd o wybod fod Aron ers dros flwyddyn wedi bod yn Ysbytai Gwynedd, Eryri a Walton a chyn diwedd y flwyddyn bwriedir iddo ddod i Hospis Llandudno am ofal pellach.

**Anfonwn ein cyfarchion Nadolig i'n** haelodau sydd **MEWN CARTREFI PRESWYL**
Cartref Marbryn Caernarfon : Mr Gareth Lee.
Cartef Golwg y Wyddfa, Llanberis : Mrs Gweneirys Jones.
Cartref Bryn Seiont Newydd : Mr Elwyn Parry
Cyflwynwn ein cyfarchion cynhesaf hefyd i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref .

## SYMUD AELWYD .

Dymunwn yn dda i Mrs Hilda Roberts, Tonnau Gwynion yn ei chartref Newydd yn Circencester . Y rheswm dros symud yw bod yn agosach at y teulu gan mae 'rownd y gornel' mae Mari ei merch yn byw. Mae cyslltiad Mrs Roberts efo Salem yn mynd nol i gyfnod y Parchedig E.J.Owen. Pan oeddech yn ymaelodi o eglwys arall neu o'r newydd defnyddiwyd yr arwydd + yn Adroddiad y Capel . Yn Adroddiad 1954 gwelir y groes gyferbyn a Mr W.E a H.A. Roberts, , Bryn Aber, South Rd! Gwyddom am ffyddlondeb a chefnogaeth y ddau i eglwys Salem a thrist oeddem pan fu farw Mr Roberts yn Ionawr 2017. Er fod Mrs Roberts wedi symud ymhell o Gaernarfon, oherwydd iddi feistroli'r Zoom yng nghyfnod y pandemig mae'n medru ymuno â ni ar fore Sul . Diolch am dechnoleg ond yn bwysicach diolch am yr awydd i'w feistoli.

## TRYSORYDDION NEWYDD.

Trysorydd yr Ysgol Sul ers 1991 yw Mr Alun Roberts, Trysorydd Cymdeithas Ieuenctid Salem ers 2007 yw Bethan Glyn a thrysorydd Y Gymdeithas ers 1997 yw Mr Ieuan Jones . Diwedd y flwyddyn bydd y tri'n rhydd o'u cyfrifolderbau . Cyfanswm blynyddoedd gwasanaeth y tri yw 68 blwyddyn ! Cydnabyddwn eu bod yn haeddu clap mawr .Diolchwn am eu gwasanaeth .
Llenwi'r y bylchau gan Mr Emyr V.Evans yn drysorydd Y Gymdeithas a Iestyn Roberts yn drysorydd i gyfrif newydd sy'n uno cyfrif yr Ysgol Sul a'r Ieuenctid . Diolch i'r ddau am eu parodrwydd i'n cynorthwyo .

**CYFRANIADAU ARIANNOL.**

Diolch am y gofal ddangoswyd yn ystod y misoedd diwethaf i sicrhau fod cyfraniadau at Achos Salem yn parhau i gyrraedd ein trysorydd . Gwerthfawrogwn yn ddiffuant yr ymdrech a ddangoswyd gennych.

Gellir cyfrannu at y capel drwy drosglwyddiad banc gan ddefnyddio'r manylion isod: **Côd y Banc i'w dalu 40-16-02 Rhif y cyfrif i'w dalu- 70724556.**

Cofiwch roi enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod os gwelwch neu danfon siec / amlen i'r trysorydd: Mr Alun Jones, Gwyddfan, 22 Llys Meirion, Caernarfon, LL55 1LE yn dyladwy i : **CAPEL SALEM CAERNARFON**.Diolch yn fawr

Dalier sylw ;

***bod llyfrau cyfrifon yr eglwys yn cau Sul ola'r flwyddyn 26 Rhagfyr 2020**

* am yr anogaeth i gyfrannu trwy gyfrwng debyd uniongyrchol.
* am y gwahoddiad i bob aelod geisio ychwanegu 10% at eu cyfraniad blynddol.

*am yr ymgyrch i ddenu cyfamodwyr newydd. Drwy Gyfamodi ( Gift Aid) cawn 25c am bob £1, ar yr amod eich bod yn talu Treth Incwm. Gwneir hyn drwy arwyddo ffurflen berthnasol




## GAIR Y DYDD

Deunydd defosiwn dyddiol a gaiff ei gyhoeddi bedair gwaith y flwyddyn (fesul tri mis) yw Gair y Dydd. Cyhoeddir gan Bwyllgor Darlleniadau Beiblaidd ar ran Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys yng Nghymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Diolch i Veira Owen am fod yn gyfrifol i'w ddosbarthu . Os dymunwch archebu copi rhowch wybod i Veira ar y cyfle cyntaf. gwelwch yn dda Cost unigol yw £3 ( tri nis) neu £10.00 y flwyddyn i'w dalu ymlaen llaw i drysorydd y capel.

Yr un yw'r gwahoddiad gyda chylchgronnau eraill; CRISTION a'r TYST. Pris Y TYST yw 50c yr wythnos a Cristion ( bob daufis) yn £1.50

'***Daeth Crist i'n plith , O llawenhawn, a deued pawb ynghyd i'w dderbyn a'i gydnabod ef yn Geidwad i'r holl fyd'***



"

**Apel Nadolig Cymorth Cristnogol**

## Dewisiadau amhosib mam



### Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol 2021

Mae'r pwmp llaw ym mhentref Adut Mariu yng ngogledd De Swdan wedi trawsnewid bywyd ei theulu a'i chymuned gyfan. Bellach mae ganddynt gyflenwad da o ddŵr glân y gallant ddibynnu arno. 'Mae'r dŵr ddaw o'r pwmp llaw yn dda iawn,' meddai Adut, sy'n fam i dri. 'Mae'n rhydd o haint. Rydym yn yfed ohono gyda thawelwch meddwl.' Ond mae ei thawelwch meddwl presennol yn awgrymu adegau mwy pryderus yn y gorffennol.

Cyn i SPEDP, partner lleol Cymorth Cristnogol, adeiladu twll turio, roedd y pentref yn gorfod dibynnu ar yr afon gyfagos am ei gyflenwad dŵr. Ateb anfoddhaol oedd hyn, ar y gorau. 'I edrych ar ôl fy mhlant, roedd rhaid iddynt yfed o ddŵr yr afon fudr,' cofiodd Adut. 'Mae yna sawl haint yn y dŵr. Mae carthion gwartheg yno, mae carthion mulod yno … Mae pobl yn ymolchi yno.' Ond yn ystod adegau o lifogydd – problem gyson yn y rhanbarth, sy'n waeth oherwydd newid hinsawdd – roedd y cyflenwad dŵr yn cael ei halogi fwyfwy. 'Pan ddaeth y llifogydd, fe ddaethon nhw yn eu holl rym,' cofiodd Adut. 'Roedd y pentref dan ddŵr. Doedd neb yn gallu symud. Doedd y masnachwyr aeth i'r farchnad ddim yn gallu dod o hyd i'w ffordd yn ôl. Doedd y plant oedd yr arfer mynd i'r ysgol ddim yn gallu mynd yno bellach. Cafodd popeth ei ddinistrio.'

**Am fwy o wybodaeth am Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol, os gwelwch yn dda ewch i: https://www.christianaid.org.uk/ appeals/key-appeals/christmas-appeal**

Ymatebwn i Apel Nadolig C.C yn flynyddol drwy gynnal CINIO BARA A CHAWS BORE SUL cyn dydd Dolig. Ni fydd yn bosib gwneud hyn eleni eto ond gellir cyfrannu fel arfer drwy ddanfon siec /arian i Mererid Mair , neu'n syth i'r banc . Manylion : Côd y Banc i'w dalu : 52 10 39 Rhif y cyfrif i'w dalu 02265311 . Gwnewch y siec yn daladwy i ACHOSION DA .Nodwch rhif aelodaeth a rhowch y geiriau Cymorth Cristnogol**.**

**ARBED ARIAN Apel arall !**

Mae Capel Salem, fel pob mudiad ac elusen yn gorfod cadw llygaid barcud ar y gwariant . Un lle gellid arbed arian yw i ragor o'r aelodau dderbyn Y LLINYN ARIAN AR SAFWE CAPEL SALEM yn lle ei ffurf brintiedig . Bob tro bydd y Llinnyn Arian yn cael ei roi ar Safwe Salem, byddwn yn rhoi gwybod i chi drwy ebost. Ystyriwch a fyddech chi'n gallu derbyn y LlA ar y wê? Os dymunwch newid i'w gael ar Safwe Salem yn lle ei brintio, rhowch wybod i Esyllt Penri Bebb, Cynfal, Lôn Ddewi. ebost : **esyllt.penri@yahoo.com . Diolch am yr ymateb**

CYMDEITHAS Y BEIBL

Gofynnir gan Gymdeithas y Beibl i'r eglwysi neulltio un Sul o'r flwyddyn i feddwl am waith y Gymdeithas . Er mae Sul olaf Hydref yw'r dyddiad a nodir fel Sul y Beibl, nid oes gorfodaeth ar unrhyw eglwys gadw at y dyddiad. Yr hyn sy'n bwysig yw defnyddio oedfa neu Sul cyfan i feddwl am waith y Gymdeithas . Yn Salem ers sawl blwyddyn rhoddir sylw i waith y Gymdeithas ar ail Sul Adfent Os dymunwch weld yr deunydd y Gymdeithas ewch i'w Safwe . Fel arfer gwneir casgliad ar Suliau mis Rhagfyr . Derbynnir cyfranniadau eleni trwy dalu'n syth i gyfrif capel Salem trwy law trysorydd yr eglwys;Mr Alun Jones, Gwyddfan, 22 Llys Meirion , Caernarfon.
**Manylion y Cyfrif : CÔD BANC I'W DALU 40 16 02**
**RHIF Y CYFRIF 70724556 . Gwnewch y siec yn dyladwy i Capel Salem, Caernarfon . Cofiwch roi rhif aelodaeth a nodi : Cyfraniad Cymdeithas y Beibl neu trwy arian mewn amlen neu siec.**

**AGOR Y LLYFR**



Bu criw Agor y Llyfr Caernarfon yn brysur eleni eto yn creu fideos o straeon Beiblaidd i'w hanfon i ysgolion y dref. Cafwyd mynd 'ar leoliad' i Fferm Is-Helen ar y Foryd i recordio Stori'r Nadolig yn eu sied wair er mwyn ceisio dod â stori'r geni yn fyw i blant yr ysgolion. Diolch i Llinos Mai Morris; Gweithiwr Plant a Ieuenctid Eglwys Noddfa am ei holl waith yn golygu a rhoi'r fideos at ei gilydd. Mae'r ysgolion wedi gwerthfawrogi yn fawr, Dyma rai o sylwadau gan ddisgyblion Blwyddyn 4 Ysgol y Gelli:

Diolch ichi am ddod a'r stori'n fyw inni gael dysgu am Iesu.

Diolch am y gan Dawel Nos

Diolch am roi eich amser i wneud y fideo ac am yr actio da.

Diolch am y weddi. Rydym wedi mwynhau bore ma.



**<u>Manylion Cysylltu drwy Zoom.</u>**
**Mae gan fudiadau gwahanol rifau cysylltu zoom gwahanol. Bydd manylion zoom oedfa bore Salem yr un peth bob wythnos sef:**
**Oedfaon Salem: 899 6740 5728 Cyfrinair: 1588**
**Os am ymuno dros y ffôn:**
**Ffonio: 02034 815 237 yna deialu 899 6740 5728 # yna 1588#**

**Bydd gan gyfarfodydd undebol rifau cysylltu gwahanol felly gwiriwch y manylion i sicrhau eich bod yn gallu ymuno.**
**Manylion cysylltu y Myfyrdod Adfent ydy:**
**872 8714 6633 cyfrinair: 1234**
**I ymuno dros y ffôn: 02034 815 237 yna deialu**
**872 8714 6633# yna 1234#**

**CYNGOR EGLWYSI CAERNARFON**
**CANU CAROLAU -Dydd Iau, 23 Ragfyr am 12:30 ar y maes o flaen Capel y Maes**



**Cyfarfodydd Undebol Cyngor Eglwysi Caernarfon 2022**
Ionawr 5 7 o'r gloch Caersalem
Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn.
Bydd y cyfarfod hefyd yn cael ei ddarlledu yn fyw ar zoom

Chwefror 20 5 o'r gloch Salem
Sul Cymdeithas gyda Sian Elen Tomos, Gisda
Ebrill 17 Nos Sul y Pasg
Mai 15 5 o'r gloch Gwasanaeth Cymorth Cristnogol
Medi 18 10 o'r gloch Sul Cyngor Eglwysi

**CYFUNDEB GOGLEDD ARFON**
**Cynhelir Cyfarfod o'r Cwrdd Chwarter dros zoom ar Nos Fercher Ionawr 26 am 7 o'r gloch. Arweinir y Myfyrdod Dechrau'r Flwyddyn yn y cyfarfrod gan Parch Owain Davies, Llanrwst. Manylion zoom i ddilyn.**

**CYFEIRIAD SAFWE CAPEL SALEM**
www.capelsalemcaernarfon.com 